

ARGYFWNG COVID CÏOG



Mae cynffon hir pandemig COVID-19 yn achosi niwed i anifeiliaid anwes hefyd. Mae safonau masnach yn ymwybodol o gynnydd dramatig mewn ffermio a smyglo cŵn bach gan fod masnachwyr diegwyddor yn manteisio ar yr ymchwydd yn y galw am gŵn bach a'r prisiau mawr y gallant eu gofyn am.



Mae pryniannau anifeiliaid anwes yn dod o dan ddeddfwriaeth amddiffyn defnyddwyr (Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008) y mae safonau masnach yn eu gorfodi.



YN ÔL FFIGURAU'R
ASiantaeth Iechyd
Anifeiliaid a Phlanhigion,
Mewnforiwyd mwy na

66,000

O GŴN YN FASNACHOL
I'R DU'R LLYNEDD, AC
ATAFAELWYD

843


O GŴN BACH AR Y
GORORAU, I FYNY O

324

YN 2019 - CYNNYDD O
ODDEUTU

260%

OSGOI'R FFERMWYR A'R SMYGLWYR O GŴN BACH



Mae bridwr ag enw da yn cymryd gofal dros les ei anifeiliaid. Bydd cŵn bridio wedi byw mewn amodau da, a byddant wedi cael bywydau hapus. Bydd cŵn bach wedi cael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae safonau masnach wedi gweld y niwed a achosir gan fridio cŵn yn ddwys a chŵn bach yn cael eu smyglo ar draws gororau:-

Efallai y bydd y cŵn bach mewn perygl o gael problemau iechyd cynhenid ac efallai na chawsant eu brechu'n gywir neu ddim o gwbl, gan roi iechyd anifeiliaid eraill a'r cyhoedd mewn perygl.

Bydd ffermwyr cŵn bach yn bridio anifail benywaidd yn barhaus nes na fydd hî'n gallu cael mwy o gŵn bach.

Mae'r niwed i ddefnyddwyr yn amrywio o'r costau sy'n gysylltiedig â biliau milfeddygol annisgwyl oherwydd iechyd gwael y ci bach, i gostau cwarantîn, ac mewn achosion eithafol, y costau emosiynol ac ariannol sy'n gysylltiedig â phrynu ci sy'n rhy sâl i oroesi.

Pan fydd hyn yn digwydd, yn aml mae defnyddwyr yn cael ychydig neu ddim siawns o gwbl o gael gwneud yn iawn yn erbyn y bridwr neu'r gwerthwr pan fyddant yn diflannu.



Mae masnachwyr cŵn bach twyllodrus yn defnyddio amrywiaeth o dactegau i ymddangos yn gyfreithlon. Dyma rai enghreifftiau diweddar a welwyd yn ôl safonau masnach:

- cŵn bach sy'n cael eu hysbysebu ar werth ar-lein fel wedi'u 'fagu gartref' dim ond i'r cwsmer darganfod yn ddiweddarach y gallai'r ci bach fod yn gynnyrch fferm gŵn bach, naill ai trwy ddarganfod microsglodyn estron a/ neu'r ci bach yn datblygu salwch sy'n gyfystyr ag amodau bridio o ffermydd
- cŵn bach sy'n cael eu hysbysebu ar werth ar-lein gan fridwyr didrwydded, neu gan fridwyr sy'n honni yn dwyllodrus eu bod wedi'u cofrestru â Chlwb Cwt
- camddisgrifiad o frîd ci sy'n cael ei werthu

- gwerthwyr yn honni bod cŵn bach wedi derbyn eu brechiadau cyntaf neu wedi cael microsglodyn pan nad ydyn nhw a hyd yn oed yn ffugio cofnodion meddygol
- gwerthwyr yn honni yn dwyllodrus eu bod yn gweithio at ddibenion elusennol, er budd a lles cŵn, sydd mewn gwirionedd dim ond â diddordeb mewn budd ariannol eu hunain
- gwerthwyr yn rhentu tai i greu'r argraff bod y cŵn bach yn derbyn gofal da mewn lleoliad teuluol.



ADNABOD Y TWYLLWYR

Gyda'r tactegau a ddefnyddir i gamarwain prynwyr, nid yw masnachwyr cŵn bach twyllodrus bob amser yn hawdd eu hadnabod, ond gallwch edrych am arwyddion a gofyn cwestiynau manwl i ddarganfod y twyllwyr.

- prynwch bob amser gan fridiwr trwyddedig neu werthwr ag enw da a chael geiradaon
- byddwch yn wylidwrus o hysbysebion ar-lein, edrychwch ar gyfryngau cymdeithasol ac adolygiadau ar-lein y gwerthwr
- sicrhewch eich bod chi'n gweld eich ci bach yn rhyngweithio â'i fam a'i brodyr a chwirydd
- peidiwch â chyfarfod yn unman nad yw'n gartref i'r ci bach
- byddwch yn ymwybodol bod yn rhaid i gi bach fod o leiaf yn 8 wythnos oed i adael ei fam
- sicrhewch fod gan gŵn bach "o dras" gofrestrfeydd cwt priodol a dilys
- ymwelwch â'r ci bach rydych chi eisiau ei brynu fwy nag unwaith
- peidiwch â phrynu ci bach sy'n edrych yn sâl, tan bwysau neu'n rhy ifanc
- sicrhewch fod y ci bach yn cael microsglodyn cyn prynu
- gofynnwch gwestiynau manwl. Bydd bridiwr ag enw da yn hapus i ateb yn fanwl a dangos cofnodion meddygol a brechu.

RHOI GWYBOD AM BRYDERON

Mae'n bwysig bod defnyddwyr yn cysylltu â safonau masnach trwy'r llinell gymorth berthnasol os ydynt yn poeni am bryniant o anifail anwes camarweiniol, fel y gellir ymchwilio i'r masnachwyr hyn a chymryd y camau priodol.

Cymru a Lloegr: Llinell Cyngor ar Bopeth
0808 223 1133 neu <https://www.citizensadvice.org.uk/>

Rhif iaith Cymraeg **0808 223 1144**
neu <https://www.citizensadvice.org.uk/wales/>

Yr Alban: Consumer Advice Scot **0808 164 6000** neu
<http://www.consumeradvice.scot/>

Gogledd Iwerddon: Consumerline **0300 123 6262** neu
<https://www.nidirect.gov.uk/services/contact-consumerlinemake-complaint-or-ask-advice>

